# Naftaly Kinyua Wachira

## Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya

**Mae Naftaly yn 27 oed, ac mae'n ceisio jyglo dau fyd heriol: fel myfyriwr prifysgol ac fel ffermwr coffi yn Sir Kirinyaga, Kenya. Mae Naftaly wedi bod yn ffermio coffi ers 2018 ac yn y cyfnod byr hwnnw, mae'r amodau mae'n dibynnu arnynt wedi newid yn sylweddol.**

*'"Y dyddiau hyn, allwch chi ddim rhagweld yr hinsawdd," meddai Naftaly. "O'r blaen, roedd yn hawdd gwybod ar ba ddiwrnod i roi tail, ar ba ddiwrnod i roi plaladdwyr… Rydym yn cael cyfnodau gyda thymhorau hir o law. Felly, **allwch chi ddim rhagweld yr hinsawdd**."*

I ffermwyr coffi, mae amodau'r tywydd yn bwysig. Mae tywydd anrhagweladwy yn effeithio ar bob penderfyniad ar y fferm, yn enwedig pan mae **costau'n codi**. "Yn ystod yr amseroedd hyn pan mae cost gwrteithiau'n… uchel, ni fydd yn fforddiadwy. Bydd y cynhyrchiant yn isel, ac mae delio â phlâu yn gallu bod yn anodd ac mae hyn yn lleihau cynhyrchiant. Mae'r newidiadau hefyd yn effeithio ar yr amseriadau mewn perthynas â gofalu am y cnydau."

Nid dim ond ar y cnydau mae hyn yn effeithio, ond ar y ffermwyr eu hunain. "**Mae [newid hinsawdd] yn gwneud i mi deimlo'n bryderus**," meddai Naftaly yn syml. "Fuaswn i ddim eisiau i fy mhlanhigion wywo neu sychu fyny. Rhaid i mi wneud rhywbeth…" Ar draws cymuned Naftaly, mae afonydd wedi cael eu disgrifio fel rhai sy'n sychu fyny, mae dŵr yn cael ei ddogni, ac mae teuluoedd yn cael trafferth tyfu neu fforddio digon o fwyd.

Trwy Masnach Deg, mae Naftaly wedi **derbyn hyfforddiant** sy'n ei gefnogi gyda'r heriau hyn. "**Dwi wedi plannu coed**. Cefais fy nysgu am ffyrdd o gynhyrchu coffi i'r eithaf," meddai, gan gynnwys "delio â phlâu a sut i ffermio." Mae bellach yn creu tomwellt – drwy orchuddio'r pridd gyda deunydd organig i gadw lleithder, lleihau straen gwres a gwella iechyd y pridd – ynghyd â thocio a defnyddio tail organig i helpu ei goed coffi i ymdopi gydag **amodau sy'n newid**.

Gyda Masnach Deg, mae hefyd **yn amrywiaethu ei incwm** fel ffordd o ddiogelu ei hun yn erbyn newid hinsawdd. "Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol, oherwydd pan fydd gennych ffynhonnell incwm arall i ddibynnu arni, mae'n gallu bod yn fwy fforddiadwy," meddai Naftaly. "Dydych chi ddim yn dibynnu ar un ffynhonnell yn unig."

Fel ffermwr ifanc sy'n **dal i astudio a gwneud ei ffordd** yn y byd coffi, mae nod Naftaly yn syml: "Hoffwn allu addasu'n well pan fydd pethau'n newid," meddai, a chanolbwyntio ar adeiladu dyfodol cynaliadwy.





‘Y dyddiau hyn, allwch chi ddim rhagweld yr hinsawdd. O'r blaen, roedd yn hawdd gwybod ar ba ddiwrnod y gallech roi tail, ar ba ddiwrnod y gallech roi plaladdwyr. Pan mae’n… heulog mae… ymyrraeth. Mae gennym gyfnodau gyda thymhorau hir o law.’

***Naftaly Kinyua Wachira, Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya***

FAIRTRADE

FAIRTRADE




‘Yn ystod y cyfnodau yma, ni fydd [ffermio coffi] yn gyfeillgar i’r boced. Bydd y cynhyrchiad yn fach iawn, a gall y newidiadau o ran delio â phlâu fod yn anodd, sydd yn achosi lleihad mewn cynhyrchiant. Mae newidiadau [hinsawdd] hefyd yn cael effaith ar amseroedd gofal am gnydau.’

***Naftaly Kinyua Wachira, Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya***



‘Mae [newid hinsawdd] yn gwneud i mi deimlo’n bryderus. Fyddwn i ddim eisiau i fy mhlanhigion i wywo nac i sychu. Mae’n rhaid i mi wneud rhywbeth i gynnal fy mhlanhigion.’

***Naftaly Kinyua Wachira, Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya***




FAIRTRADE

‘[Mae prosiectau a gefnogir gan Masnach Deg] yn hyfforddi ar ffyrdd gwell o ymdopi â newidiadau hinsawdd. Fel ymdopi â phlâu, a sut i ffermio… er mwyn medru cynhyrchu yr uchafswm o goffi’

***Naftaly Kinyua Wachira, Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya***



‘Rydw i wedi plannu coed... a gallaf blannu cnydau gwerthiant parod yn lle cnydau bwyd. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol fel ffynhonnell incwm arall... gall eich cynnal chi heb fod yn ddibynadwy ar un ffynhonnell yn unig.’

***Naftaly Kinyua Wachira, Ffermwr Coffi a Myfyriwr ym Mutira, Kenya***

FAIRTRADE